UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Amodau Gwaith

Gweithio'n rhan amser: tâl ac amodau gwaith

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Gweithio'n rhan amser: tâl ac amodau gwaith

1. Cefndir

Cyn gwneud penderfyniad am wneud cais i weithio'n rhan amser mae'n bwysig ystyried yr holl oblygiadau, gan gynnwys yr effaith ar eich cytundeb gwaith, cyflog, cyfraniadau pensiwn, a'r oblygiadau petai diswyddo gorfodol yn y dyfodol.

2. Natur y cytundeb

Bydd y cytundeb yn newid yn barhaol, ac ni fydd hawl awtomatig gan y gweithiwr i ddychwelyd i swydd lawn-amser yn y dyfodol, oni bai fod y cytundeb yn nodi'n wahanol. Gall athro wneud cais am gytundeb rhan-amser dros dro, ac mae hawl gan y Corff Llywodraethol i ganiatáu cytundeb o'r fath gyda sicrwydd y bydd yr athro'n cael dychwelyd i weithio'n llawn-amser.

Mae UCAC yn cynghori y dylai unrhyw athro sydd yn symud o gytundeb llawn-amser i gytundeb rhan-amser dderbyn cadarnhad bod y cytundeb yn barhad o'r cytundeb gwreiddiol, e.e. 40% o'r hen swydd yn parhau, ac nid yn gytundeb newydd sbon. Bydd hyn yn diogelu'r athro rhag rhoi modd i'r cyflogwr ddiswyddo'r athro heb ddilyn trefn briodol.

Tâl diswyddo *pro rata* byddai'r AALl yn talu i athro rhan amser mewn achos o ddiswyddo gorfodol; ni fyddai gwasanaeth llawn amser cyn cychwyn gweithio'n rhan amser yn cyfrif.

Ers Medi 2008, mae'n ofynnol i athrawon rhan-amser fod ar gael am y cyfnod *pro rata* o'r 1265 oriau cyfeiriedig (*directed time*) y mae disgwyl i athro llawn amser fod ar gael. Mae disgwyl i athro sydd yn gyflogedig am 40% o Amserlen Addysgu Wythnosol yr Ysgol (*School Timetabled Teaching Week*) fod ar gael am 40% o 1265 awr, ar gyfer cyfarfodydd, gwasanaeth, dyletswyddau, a.y.b. Rhaid sicrhau nad yw athrawon rhan amser yn cael eu trin yn llai ffafriol nag athrawon llawn amser.

Mae UCAC yn cynghori y dylai amserlenni athrawon rhan amser fod mewn blociau amser addas; ni ddylai'r ysgol glymu'r athro i'r ysgol am dameidiau o amser dros yr wythnos gyfan. Gall hyn gael effaith mawr ar gostau gofal plant a'r cyfle i athro wneud swydd rhan amser arall pan nad yw'n gyflogedig gan yr ysgol honno.

3. Dychwelyd i'r un swydd ar ôl absenoldeb mamolaeth

Mae gan athrawes sy'n dychwelyd yn ystod neu ar ddiwedd y cyfnod o absenoldeb mamolaeth cyffredin (6 mis) yr hawl i ddychwelyd i'r un swydd yr oedd yn ei gwneud cynt. Os yw'n dychwelyd wedi mwy na chwech mis, dylai, fel arfer, ddychwelyd i'r un swydd ond, os nad yw hynny'n ymarferol rhesymol, i swydd arall addas a phriodol.

Nid oes ganddi hawl awtomatig i wneud y swydd honno ar sail ran-amser.

Os yw'r cyflogwr yn gwrthod caniatáu i athrawes ddychwelyd i'w swydd wreiddiol ar sail ran-amser (heb gyfiawnhad), ond wedi caniatáu iddi weithio'n rhan-amser mewn swydd o statws is, gallai gyflwyno hawliad dan y Ddeddf Gwahaniaethau ar Sail Rhyw. Yn ychwanegol at ddangos y gellid bod wedi gwneud ei swydd wreiddiol yn rhan-amser, bydd hefyd yn rhaid iddi ddangos yn union pam fod y swydd newydd o statws is, er enghraifft, gall y cyflog fod yn is, neu nad oes cyfle ar gyfer dyrchafiad.

Am wybodaeth lawn am faterion cyflogaeth sydd yn effeithio ar fenywod sydd yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, gweler taflenni gwybodaeth UCAC: **Mamolaeth a Thadolaeth** a **Mabwysiadu**.

4. Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd a chyfarfodydd amrywiol

I gydymffurfio â'r gyfraith, dylai cyflogwyr sicrhau fod gan athrawon rhan-amser yr un cyfle â rhai llawn-amser i dderbyn hyfforddiant yn ystod eu horiau gwaith.

Mae'r *School Teachers' Pay and Conditions Document* yn nodi'n glir nad oes hawl disgwyl i athro rhan-amser fynychu'r gwaith ar ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan na fyddo fel rheol yn gyflogedig.

Serch hynny, yn ôl cyngor oddi wrth yr adran sydd yn gyfrifol am y *School Teachers' Pay and Conditions Document*, ar adegau, gall Bennaeth ddisgwyl i athrawon rhan amser fynychu cyfarfodydd ar ran o ddiwrnod pan nad ydynt yn gyflogedig, e.e. cyfarfod staff ddiwedd prynhawn neu gyfarfod rhieni yn y nos pan fydd athro'n dysgu pob bore'n unig.

Mae'r cyngor yn pwysleisio:

- y dylid ceisio osgoi'r sefyllfa hon
- mai anaml y dylai hyn ddigwydd
- ei fod yn hynod bwysig i ysgolion drefnu eu hamserlen HMS, cyfarfodydd athrawon a chyfarfodydd rhieni yn ofalus – ac ymlaen llaw - gan ystyried oriau cyflogedig athrawon rhan-amser

Os bydd HMS yn disgyn ar ddiwrnod pan nad yw athro fel arfer yn gweithio, ni all y Pennaeth fynnu ei fod yn bresennol. Dylid talu, neu gynnig diwrnod *in lieu* i unrhyw athro sydd yn cytuno i weithio ar ddiwrnod pan nad yw fel rheol yn gyflogedig.

Os yw'r diwrnod HMS / cyfarfod yn disgyn ar ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan mae'r athro i fod i weithio, gellir disgwyl iddo fod yn bresennol, ond rhaid sicrhau nad yw athrawon rhan amser yn cael eu trin yn llai ffafriol nag athrawon llawn amser.

Os yw'r ysgol yn trefnu sesiynau nos (*twilight*) yn lle diwrnod HMS diwedd tymor, rhaid sicrhau nad yw athrawon rhan amser yn cael eu trin yn annheg.

5. Amser CPA

Mae gan athrawon rhan-amser hawl statudol i amser CPA *pro rata*, sef 10% o'u hamser addysgu.

6. Hawl i ddyrchafiad

Ni ddylai statws athro fel gweithiwr rhan-amser fod yn faen tramgwydd i ddyrchafiad i swydd ran-amser neu lawn-amser. Ni ellir diystyru aelod o staff rhan-amser ar gyfer dyrchafiad.

7. Diswyddo oherwydd gormodedd

Mae diswyddo athrawon rhan-amser yn awtomatig yn debygol o fod yn anghyfreithlon am ddau reswm:

- mae'n torri'r rheoliadau am ei fod yn trin gweithwyr rhan-amser yn llai ffafriol na rhai llawn-amser
- gan fod mwyafrif y gweithwyr (ac yn arbennig, athrawon) rhan-amser yn fenywod, gall fod yn gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw

I gadw o fewn y gyfraith, dylai Llywodraethwyr yr ysgol sicrhau bod y meini prawf ar gyfer diswyddo yn wrthrychol a na chaiff athrawon rhan-amser eu trin yn wahanol i athrawon llawn-amser.

8. Manylion cyflog

Symud i fyny'r brif raddfa gyflogaeth

Yn ôl y *School Teachers' Pay and Conditions Document,* gall athro symud i fyny'r brif raddfa gyflogaeth os ydyw wedi gweithio cyfanswm o 26 wythnos yn ystod y flwyddyn addysgol flaenorol. Gall hyn olygu gweithio un diwrnod yr wythnos am 26 wythnos.

I athro rhan-amser sydd â chytundeb, mae cyfnodau gwyliau ysgol a chyfnodau absenoldeb oherwydd salwch yn cyfrannu at y 26 wythnos.

Bydd pob athro a gyflogir yn rhan-amser yn teilyngu esgyniad ar ris a thâl *pro rata* cyfatebol ar 1 Medi bob blwyddyn, hyd nes y cyrhaeddo bwynt uchaf y raddfa gyflogau.

Amrediad Cyflog Uwch

Gall athrawon rhan-amser wneud cais i groesi'r Trothwy Perfformiad unwaith iddynt gyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau. Ar ôl cyrraedd y meini prawf, bydd y gweithiwr yn derbyn swm o arian cyfatebol i oriau'r swydd – swm *pro rata*.

Bydd modd symud i fyny'r amrediad cyflog uwch ar ôl dwy flynedd, yn dilyn yr un drefn ag athrawon llawn-amser.

Lwfansau CAD, AAA, Recriwtio a Chadw

Caiff lwfansau athrawon rhan amser eu talu *pro rata*.

Manteision ychwanegol

Ar hyn o bryd, ychydig o ysgolion sy'n cynnig manteision ychwanegol, megis yswiriant iechyd, cymorth â llety, ac ati, ond mae'r hawl ganddynt erbyn hyn i gynnig abwyd i ddenu neu gadw staff. Os ydynt yn gwneud hynny, rhaid sicrhau nad yw athrawon rhan-amser yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Tâl *pro rata*

Caiff athrawon rhan-amser eu talu *pro rata*, h.y. yn ôl y gyfran gyfatebol o'r cyflog a'r lwfansau y buasent yn eu hennill pe baent yn gyflogedig llawn-amser.

Os bydd athro rhan-amser yn cytuno i weithio oriau ychwanegol bob hyn a hyn dylid defnyddio'r egwyddor *pro rata* i gyfrifo'r cyflog ychwanegol fydd yn ddyledus.

Er mwyn cyfrifo cyflog athrawon rhan-amser o fis Medi 2008 ymlaen, cyflwynwyd fformiwla newydd yn y *School Teachers' Pay and Conditions Document* i'w defnyddio ym mhob ysgol ac ar draws yr AALlau. Byddai peidio eu gweithredu yn dorcyfraith gan fod y gofynion hyn yn statudol.

Mae'r broses ar gyfer athrawon dechreuodd weithio fel athrawon rhan-amser o fis Medi 2008 yn gymharol hawdd. Dilynir y drefn a nodir isod.

- O hyn ymlaen, bydd cyflog athro rhan-amser yn seiliedig ar Amserlen Addysgu Wythnosol yr Ysgol (*School Timetabled Teaching Week, STTW*). Diffinnir AAWY / STTW fel "*the aggregate period of time in the school timetable during which pupils are normally taught*"

- Mae AAWY yn cynnwys amser CPA ac unrhyw gyfnodau eraill digyswllt, ond nid yw'n cynnwys amser gwasanaeth, egwyl a chinio. (Nid yw hyn yn golygu nad oes disgwyl i athrawon fynychu gwasanaeth a gwneud dyletswydd egwyl)
- Cyfrifir nifer y gwersi ac yna cyfrifir canran yr amser y cyflogir yr athro rhan-amser
- Os yw'r amser addysgu disgyblion yn yr ysgol yn 3 awr yn y bore a 2 awr yn y prynhawn, golyga hyn bod amserlen addysgu wythnosol yr ysgol yn 25 awr. Mae athro rhan-amser sydd yn gweithio dau fore a dau brynhawn yn yr ysgol yn gweithio 10 awr o amserlen addysgu wythnosol yr ysgol. Mae'n gweithio 40% o swydd lawn-amser o fewn yr ysgol, a bydd yn derbyn cyflog sydd yn cyfateb i 40% o dâl llawn-amser
- Pan fydd athro rhan-amser yn addysgu yn adran y babanod, a hefyd yn yr adran Iau, a bod gwahaniaeth yn amserlen addysgu wythnosol y ddwy adran, bydd angen cyfrifo'r ddwy elfen ar wahân, er mwyn sicrhau tâl teg i'r athro

Athrawon oedd yn addysgu'n rhan amser cyn Medi 2008

Roedd rhaid ail-amcangyfrif cyflog athrawon oedd yn gyflogedig fel athrawon rhan-amser yn y cyfnod yn arwain i fyny hyd at Fedi 2008, h.y. amcangyfrif y cyflog a fyddai'n ddyledus petai'r hen gyfundrefn heb newid, ac eithrio unrhyw bwyntiau ychwanegol oedd yn ddyledus o Fedi 2008. Yna ail-gyfrifo'r cyflog gan ddefnyddio'r dull *pro rata* newydd a nodir uchod.

Pan oedd athro'n derbyn un neu fwy o bwyntiau ychwanegol o 1 Medi 2008, roedd angen wedyn ychwanegu gwerth y pwyntiau hynny at y tâl newydd.

Os oedd y tâl newydd yn is na'r hen dâl, roedd angen cyfrif y swm oedd angen ei ddiogelu (sef y gwahaniaeth rhwng y ddau swm).

Adolygu Lwfansau Athrawon Rhan-Amser

Roedd rhaid adolygu lwfansau athrawon rhan-amser yn dilyn yr un drefn ag a nodir uchod ar gyfer ail-gyfrifo cyflog athrawon rhan-amser. Telir y lwfans *pro rata*. Gwneir trefniadau i ddiogelu unrhyw wahaniaeth mewn lwfans yn yr un modd ag y diogelir y cyflog gwreiddiol.

Cofiwch na ellir rhannu lwfans CAD (*TLR*); bydd CAD yn cael ei dalu *pro rata*.

Diogelu cyflog

Pan fydd cyflog diwygiedig (*revised*) yr athro yn llai na'r cyflog gwreiddiol ac nad yw'n derbyn pwyntiau ychwanegol, rhaid diogelu'r gwahaniaeth a thalu swm wedi'i ddiogelu yn ogystal â'r cyflog diwygiedig.

Pan fydd athro'n derbyn pwynt ychwanegol neu lwfans ychwanegol, a bod y cyfanswm yn llai na chyfanswm yr hen gyflog, rhaid talu'r swm sydd wedi'i ddiogelu.

Diogelir y cyflog am 3 blynedd neu hyd nes bod newidiadau cyflog / lwfans yn golygu bod y tâl newydd yn uwch na'r gwreiddiol.

Dylai'r Corff Llywodraethol neu'r AALl hysbysu athro rhan-amser yn ysgrifenedig o fewn mis o benderfynu bod angen diogelu cyflog gan nodi:

- rheswm am y penderfyniad
- y cyflog gwreiddiol
- y swm a ddiogelir a'r dyddiad pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben neu, yn achos athrawon rhan-amser sydd ar gytundeb cyfnod penodedig, y dyddiad neu'r digwyddiad ddaw â'r diogelu i ben.

(Gweler y *School Teachers' Pay and Conditions Document*)

9. Pensiwn

Ymuno â chynllun pensiwn yr athrawon

Ers i'r rheolau ar bensiynau newid, nid oes bellach disgwyl i athro rhan-amser **optio i mewn** i gynllun pensiwn yr athrawon.

Mae gweithwyr rhan-amser sydd wedi derbyn cytundeb ar ôl 1 Ionawr 2007 i mewn yn y cynllun pensiwn athrawon yn awtomatig, ac mae rhaid iddynt eithrio *(opt out)* os nad ydynt yn dymuno aros yn y cynllun.

Dylai athrawon oedd mewn swydd ran-amser cyn 1 Ionawr 2007 fod wedi cael cynnig optio i mewn i'r cynllun. Rydym yn ymwybodol o rai sydd heb wneud hyn. Mae UCAC yn cynghori pob athro rhan-amser i wneud hyn os ydynt am i'w gwasanaeth gyfrif tuag at bwrpas pensiwn.

Dyma restr o swyddogion cyflogedig UCAC – mae croeso mawr i chi gysylltu â nhw am gyngor pellach:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol - elaine@athrawon.com
- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd – eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De – dilwyn@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi – rebecca@athrawon.com

Neu ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Medi 2009

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com